



YSGOL PEN BARRAS

Prospectws 2025-2026

Gweithiwn â gwen yn sŵn y Gymraeg

CYNNWYS



- [Cyswylt](#)
- [Llythyr y Pennaeth](#)
- [Staff yr Ysgol](#)
- [Corff Llywodraethol yr Ysgol](#)
- [Nod ac Amcanion](#)
- [Defnyddio'r Gymraeg ac Athroniaeth yr Ysgol](#)
- [Amseroedd](#)
- [Clybiau Gofal Plant](#)
- [Gwisg Ysgol](#)
- [Gwybodaeth Bersonol](#)
- [Cinio Ysgol](#)
- [Polisi Codi Tâl](#)
- [Polisi Derbyn Plant i'r Ysgol](#)
- [Trosglwyddo i'r Uwchradd](#)
- [Presenoldeb](#)
- [Gwyliau Teuluol](#)
- [Iechyd](#)
- [Iechyd a Diogelwch](#)
- [Cyfle Cyfartal](#)
- [Cymdeithas Rhieni ac Athrawon](#)
- [Ymdrin â Chwynion](#)
- [Polisiau](#)
- [Y Cwricwlwm](#)
- [Trafod Gwaith y Plant](#)
- [Anghenion Dysgu Ychwanegol](#)
- [Addysg Rhyw](#)
- [Addysg Grefyddol a Chydaddoli](#)
- [Chwaraeon](#)
- [Dyddiadau'r Tymor 2024-2025](#)

Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg

CYSYLLTU



Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

Ffôn: 01824 704129

E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk

Facebook / Instagram: @PenBarras

Gwefan: www.ysgolpenbarras.cymru

Cyfeiriad:

Ysgol Pen Barras
Ffordd Glasdir
Rhuthun
Sir Ddinbych LL15 1QQ

Cadeirydd Llywodraethwyr: Mr Huw Hilditch-Roberts

Pennaeth Addysg: Mr Geraint Davies

Swyddfeydd y Cyngor, Rhuthun Ffôn: 01824 708009

Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg

NEGES Y PENNAETH



Annwyl Riant/Gofalwr,

Mae'n bleser gennym gyflwyno prospectws Ysgol Pen Barras i chi.

Ysgol Gynradd Sirol Gymraeg yw Ysgol Pen Barras, gyda 290 o ddisgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed ar y gofrestr. Lleolir yr ysgol oddi ar Ffordd Glasdir yn Rhuthun, ac mae'n ysgol lwyddiannus sy'n cynnig profiadau cyfoethog ac ysbrydoledig i'r plant. Rydym yn gosod safonau uchel ac yn meithrin datblygiad y plentyn cyfan mewn awyrgylch cartrefol, cefnogol ac ysgogol. Mae pob plentyn yn cael cyfle i gyrraedd ei lawn botensial, boed hynny'n academiaidd, yn gorfforol neu'n greadigol.

Rydym yn rhoi pwyslais cryf ar ddarllen, ysgrifennu, sgiliau digidol a rhifedd, ond credwn hefyd fod addysg yn fwy na hynny. Ein nod yw cynnig profiadau sy'n meithrin y plentyn yn ei gyfanrwydd ac yn ei baratoi ar gyfer bywyd.

Ein huchelgais yw sicrhau bod ein disgyblion yn ddwyieithog, gan roi iddynt "ddwy ffenestr ar y byd." Wrth i blant ymuno â'r ysgol, cânt eu meithrin yn ofalus i ymgyswddo â'r sefyllfa Gymraeg. Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol, ac rydym yn paratoi'r disgyblion yn unol â hynny. Rydym hefyd yn cynnig meithrinfa yn y prynhawn, sef Clwb Ffrindiau Bach, sy'n rhoi cyfle i blant y dosbarth Meithrin ddatblygu eu sgiliau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Ysgol Pen Barras yn ysgol hapus, gynnes a gweithgar yn y gymuned. Mae gennym berthynas agos a chydweithredol gyda rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach. Rydym yn croesawu rhieni i drefnu ymweliad ag unrhyw adeg i drafod addysg eu plentyn neu unrhyw agwedd ar fywyd yr ysgol.

Rwy'n edrych ymlaen at eich cyfarfod.

Yn gywir,

Dyfan Phillips

Pennaeth

Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg

STAFF YR YSGOL



Tim Rheoli

Mr Dyfan Phillips
Pennaeth

Miss Ffion Hughes
Dirprwy Bennaeth / Arweinydd Cyfnod Allweddol 2 a'r Uned dan 9

Miss Annwen Hughes
Cydlunydd Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mrs Helen Williams
Arweinydd Uned dan 12

Mrs Sioned Roberts
Arweinydd Uned dan 7

Mrs Elinor Rogers
Arweinydd Uned dan 5

Athrawon Cyfnod Sylfaen

Uned dan 5

Mrs Elinor Rogers
Mrs Mared Owen

Uned dan 7

Mrs Sioned Roberts
Mrs Elin Owen
Mrs Alwen Vaughan
Mrs Elin Griffiths

Athrawon Cyfnod Allweddol 2

Uned dan 9

Miss Ffion Hughes
Mrs Lois Morris
Miss Annwen Hughes
Mr Owen Hughes

Uned dan 11

Mrs Helen Williams
Miss Elin Parry
Mrs Elen Tudor
Mrs Nia Roberts

Cymhorthyddion Dosbarth

Mrs Elen Owen
Mrs Glenda Faulkner
Mrs Bethan Edwards
Miss Bethan Hughes
Mrs Ceri Roberts
Mrs Ffion Jones
Mrs Emma Turner
Mrs Sara Rowlands
Miss Jess Jones
Mr Wil Owen

Staff Gweinyddol

Mrs Mari Wynne Jones
Miss Glenda Jones
Miss Anita Mifflin

Staff y Gegin

Gofalwr/Glanhawyr

Mr Emyr Lloyd Thomas
Miss Carys Jones
Mr Emyr Turner

Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg

CORFF LLYWODRAETHOL YR YSGOL



Mr Huw Hilditch-Roberts
Cyfetholedig / Cadeirydd

Mr Dyfan Phillips
Pennaeth

Mr Hywel Richards
Cyfetholedig / Is-gadeirydd

Mrs Sharon Wyn Davies
Cyfetholedig

Mr Wynne Davies
Cyfotheledig

Miss Menna Jones
Cyngor Tref Rhuthun

Miss Elin Parry
Staff Dysgu

Mrs Ffion Jones
Staff

Mrs Ceri Ranson
Rhieni

Mr Dan Nutall
Rhieni

Mrs Mair Whitty
Rhieni

Mrs Holly Evans
Rhieni



Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg

NOD AC AMCANION



Nod yr Ysgol

- Creu amgylchfyd ac awyrgylch Gymreig lle gall disgybl dyfu, datblygu ac aeddfedu i ddod yn unigolyn hyderus, yn ymwybodol o les eraill ac aelod cyfrifol o'r gymdeithas.
- Creu ymwybyddiaeth ynddo/ynddi o les eraill, a'i helpu i ddatblygu yn aelod cyfrifol o'r gymuned leol a'r gymdeithas ehangach.
- Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl sydd yn adlewyrchu gofynion lleol a chenedlaethol.
- Galluogi pob disgybl i ddatblygu yn y Gymraeg a'r Saesneg fel y gall gymryd rhan lawn ym mywyd cymdeithasol a diwylliannol y gymdeithas ddwyieithog y mae'n rhan ohoni, a hybu datblygiad eu dealltwriaeth o'u hetifeddiaeth Gymreig.
- Meithrin yn y plant falchder at eu bro a'u gwlad, at lenyddiaeth a barddoniaeth, at hanes a thraddodiad a'r rhan bwysig sydd ganddynt i'w chwarae yn y gymdeithas. Datblygu ynddynt barch at y byd y maent yn byw ynddo gan gynnwys cysylltiadau Ewropeaidd / Rhyngwladol, yn gyffredinol ond yn arbennig yng nghyd-destun eu bro a'u hamgylchedd.
- Meithrin yn y plant sensitifrwydd yn eu perthynas ag eraill drwy sicrhau eu bod yn deall natur eu cymdeithas, yn gwybod hawliau pobl eraill a'u cyfrifoldebau eu hunain, yn parchu eu cyd-ddinasyddion ac yn sylweddoli eu gwerth a'u lle yn y gymdeithas honno a'u cyfraniad personol iddi hi.
- Paratoi'r disgyblion ar gyfer y byd y byddant yn byw a gweithio ynddo trwy ddatblygu eu sgiliau TGC ar draws y Cwricwlwm.
- Cydweithio i sicrhau bod y disgyblion yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth trwy ymdrechu i hybu safonau uwch ac i ddileu tan berfformiad.

Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg

Amcanion yr Ysgol

Y Plentyn

- Helpu'r plentyn i ddatblygu'n feddyliol, yn emosiynol, yn gymdeithasol, yn gorfforol ac yn ysbrydol, gan feithrin ynddo/ynddi'r gallu i werthfawrogi ceinder a harddwch y byd naturiol a'r hyn a grëwyd gan ddyn.

Awyrgylch ac Ethos

- Sefydlu awyrgylch hapus a gweithgar yn seiliedig ar gydberthynas o barch a gofal athrawon â'i gilydd, athrawon â disgyblion, a disgyblion â'i gilydd, sydd yn galluogi disgyblion i gymweddau'n gadarnhaol a datblygu eu hunan hyder.

Cwricwlwm

- Sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal trwy ddarparu ar ei gyfer gwricwlwm perthnasol, gwahaniaethol, eang a chytbwys sy'n cydymffurfio â gofynion y cwricwlwm cenedlaethol a pholisïau'r awdurdod addysg.

Trefniadaeth

- Sicrhau cydlynedd a chydbywysedd trwy'r holl ysgol. Gwerthfawrogi a manteisio ar arbenigedd o fewn yr ysgol. Creu trefniadaeth hyblyg i sicrhau bod y disgyblion yn gallu manteisio ar ehanger o brofiadau gwahanol.

Datblygiad Staff

- Sicrhau datblygiad proffesiynol staff ac anghenion y disgyblion trwy raglen o hyfforddiant effeithiol.

Rhieni

- Sefydlu perthynas gyfeillgar, gadarn a phroffesiynol rhwng yr ysgol a'r cartref sy'n galluogi athrawon a rhieni i drafod yn agored a chydweithio er budd y plant.

Y Gymuned

- Cymryd rhan fywiog ym mywyd y gymuned er ennill parch y gymuned a meithrin yn y plant barch tuag at eu cymuned.

Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg

DEFNYDDIO'R GYMRAEG AC ATHRONIAETH YR YSGOL



Mae dewis anfon eich plentyn i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn ddewis pwysig. Mae sawl mantais o fod yn ddwyieithog.

Er enghraifft;

- Mae ymchwil yn dangos fod plant sy'n deall dwy iaith yn meddwl yn fwy hyblyg a chreadigol.
- Mae manteision economaidd amlwg yn hwyrach mewn bywyd pan fydd eich plentyn yn edrych am swydd, gan fod mwy o swyddi yng Nghymru heddiw yn gofyn am sgiliau dwyieithog nag erioed o'r blaen.
- Gall helpu i bontio rhwng cenedlaethau os oes nain neu daid neu aelodau o'r teulu yn fwy cyfforddus mewn un iaith.
- Mae'n cynnig cyfle i brofi dau ddiwylliant.
- Mewn ardal Gymreig fel Dyffryn Clwyd, mae'n rhoi cyfle i berson i ymgymryd ym mhob agwedd o fywyd cymunedol.

Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol ond amcenir at feithrin dwyieithrwydd drwy gydol Cyfnod Allweddol 2. Defnyddir polisïau'r Sir a chanllawiau'r Cwricwlwm Cenedlaethol i lunio Cwricwlwm cytbwys ac eang. Mae'n bwysig gweithredu hyn mewn awyrgylch gyfeillgar a disgybledig.

Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg

AMSEROEDD



Trefn diwrnod ysgol:

Bydd athrawon ar ddyletswydd ar y buarth o 8.45yb ymlaen

Meithrin

9.00 – 11.30



Cyfnod Sylfaen

8.50 - 11.45 Sesiwn y bore

11.50 – 12.50 Cinio

12.50 - 3.05 Sesiwn y prynhawn



Cyfnod Allweddol 2

9.00 – 12.30 - Sesiwn y bore

12.30 – 1.30 – Cinio

1.30 – 3.15 - Sesiwn y prynhawn

Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg

CLYBIAU GOFAL PLANT (CLWB PEN BARRAS)



Clwb Brecwast

Mae'r clwb ar agor bob bore o 8.00yb am bris o £4.00 y bore. Mae brecwast am ddim ar gael i bob plentyn am 8.40yb.

Clwb ar ôl Ysgol

Mae'r Clwb yn cynnig gofal ar ôl ysgol o 3.05yp tan 5.30yp. Prisiau – £5 am yr awr gyntaf, wedyn £1 am bob chwarter awr ychwanegol i'r plentyn hynaf, £3 am yr awr gyntaf, wedyn 75c am bob chwarter awr ychwanegol i frodyr a chwiorydd.

Clwb Ffrindiau Bach

Mae'r Clwb Ffrindiau Bach yn cynnig gofal i'r plant Meithrin o 11.20yb.

Prisiau - £20.00 am bob sesiwn cyfan o 11.20yb- 3.00yp.

Y plant i ddod â phhecyn cinio.

Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg

GWISG YSGOL



Mae disgwyl i'r disgyblion wisgo gwisg swyddogol yr ysgol.

Mae siop Workplace Worksafe yn Rhuthun yn cadw stoc o'r wisg ysgol, sef:

- Esgidiau du (dim treinyrs!) neu sandalau tywyll yn yr haf
- Trowsus, sgert neu siorts llwyd
- Crys polo gwyn
- Crys chwys neu gardigan swyddogol yr ysgol
- Ffrog gingham pinc a gwyn/shorts llwyd yn yr haf
- Gwisg Addysg Gorfforol – Crys-t gwyn plaen a shorts du



Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg

GWYBODAETH BERSONOL



Mae'n bwysig ein bod yn cadw cofnod o enw llawn y plentyn, enwau rhieni, cyfeiriad, rhifau ffôn a.y.b. Gofynnwn am rif ffôn cyswllt brys hefyd rhag ofn na fedrwn gysylltu â'r rhieni. Os oes unrhyw newid yn y wybodaeth a roddir, rhaid cysylltu â'r ysgol yn syth. Rhaid rhoi gwybodaeth i'r ysgol am unrhyw anhwylder meddygol, e.e. alergedd, asthma a.y.b., a chynnwys enw, cyfeiriad a rhif ffôn eich meddyg teulu.

CINIO YSGOL A CINIO YSGOL AM DDIM

Paratwir cinio poeth/oer i'r disgyblion gyda dewis gwahanol yn ddyddiol ac mae hyn am ddim i'r plant drwy nawdd grant Llywodraeth Cymru. Gall plant ddod a bocs bwyd eu hunain.



Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg

POLISI CODI TÂL



Mae hwn wedi'i seilio ar Bolisi Codi Tâl Cyngor Sir Ddinbych. Codir tâl am wersi offerynnol sy'n cael eu gweinyddu gan gwmni Cerdd Cydweithredol Sir Ddinbych. Hefyd gofynnir am gyfraniad gwirfoddol gan rieni tuag at deithiau addysgol neu ymwelwyr i'r ysgol sy'n ymwneud â chywaith dosbarth. Gofynnir am gyfraniad llawn pan fydd cyfle i fynd i Ganolfannau Awyr Agored e.e. Glan Llyn. Mae'r Awdurdod Addysg yn gweinyddu grant sy'n galluogi plant o deuluoedd sy'n derbyn Credyd Teulu neu Atodiad Incwm i beidio talu cost llety a bwyd ar ymweliadau preswyl.

Ni chodir tâl am wersi nofio gan ein bod yn defnyddio'r pwll nofio yng Nghanolfan Hamdden Rhuthun. Ond gofynnir am gyfraniad tuag at gost y bws i'w cludo i'r gwersi.



Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg



POLISI DERBYN PLANT I'R YSGOL

Derbynnir plant i'r ysgol yn rhan amser (Dosbarth Meithrin) ym mis Medi yn dilyn eu pen blwyddi yn 3 oed. Byddant yn dod i'r ysgol am sesiwn y bore o 9.00yb–11.30yb. Derbynnir plant i'r ysgol yn llawn amser (Dosbarth Derbyn) ym mis Medi yn dilyn eu pen blwyddi yn 4 oed.

Er mwyn cael lle i'w plentyn yn y Dosbarth Derbyn/Meithrin y mis Medi rhaid i rieni wneud cais i'r Adran Derbyn i Ysgolion trwy wefan Cyngor Sir Ddinbych. Ceisiadau Dosbarth Derbyn erbyn y mis Tachwedd blaenorol a cheisiadau Dosbarth Meithrin erbyn y mis Chwefror blaenorol. Bydd rhieni wedyn yn derbyn ebost yn cadarnhau fod lle i'r plentyn yn yr ysgol erbyn tua mis Ebrill.

Yn yr un modd, os yw plentyn am drosglwyddo o ysgol arall, mae gofyn i'r rhieni gysylltu â'r ysgol i drafod y trosglwyddiad ac yna gwneud cais ffurfiol trwy Adran Derbyn i Ysgolion Cyngor Sir Ddinbych.



Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg

TROSGLWYDDO I'R UWCHRADD



Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn trosglwyddo i Ysgol Brynhyfryd Rhuthun. Rhaid dewis ysgol uwchradd pan fo'r plentyn ym mlwyddyn 6 trwy wneud cais i'r Adran Derbyn i Ysgolion ar wefan Cyngor Sir Ddinbych er mis Tachwedd. Bydd y rhieni wedyn yn derbyn ebost yn cadarnhau fod lle i'r plentyn yn yr ysgol uwchradd erbyn tua mis Ebrill.

Mae disgyblion Bl 5 a Bl 6 yn mynychu sesiynau yn Ysgol Brynhyfryd yn rheolaidd yn ystod y ddwy flynedd olaf yn yr ysgol gynradd fel rhan o raglen drosglwyddo a drefnir gan yr ysgol uwchradd.



Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg

PRESENOLDEB



Mae presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn hanfodol bwysig i addysg plentyn. Disgwylir i'r plant gyrraedd yr ysgol ar amser, wedi eu gwisgo'n briodol ac yn barod i ddysgu. Gan fod rhaid i ni ddangos ar ein cofrestri fod absenoldeb yn awdurdodedig neu ddiawdurdod, disgwylir i rieni gysylltu â'r ysgol mor fuan ag sydd bosibl i egluro absenoldeb eu plentyn. Gellir gwneud hyn ar ebost neu ar y ffôn.

GWYLIAU TEULUOL

Ni argymhellir i deuluoedd fynd ar wyliau yn ystod tymor ysgol. Ond os yw'n anorfod, rhaid gwneud cais ffurfiol trwy gwblhau ffurflen, sydd ar gael o'r ysgol, a'i dychwelyd at y Pennaeth. Bydd yn cael ei gofnodi fel absenoldeb diawdurdod (ar wahân i amgylchiadau anghyffredin iawn).



Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg

IECHYD



Bydd y nyrs yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i archwilio clyw, golwg a.y.b.
Bydd cyfle i'r rhieni ddod i mewn i drafod unrhyw broblem gyda'r nyrs.
Bydd athrawon a'r nyrs yn addysgu'r plant yn rheolaidd ar sut i gadw'n iach ac i ystyried peryglon cam-ddefnyddio alcohol a chyffuriau.

Os yw'n rhaid i'ch plentyn gael meddyginiaeth yn ystod y diwrnod ysgol, rhaid i riant/gofalwr gwblhau ffurflen bwrpasol sydd ar gael o swyddfa'r ysgol. Nid oes rheidrwydd i unrhyw athro drin ffisig na'i gyflwyno i blant os yn anfodlon gwneud hyn. Caiff plant sy'n dioddef o'r fogfa (Asthma) ddod â phwmp i'r ysgol a'i roi yng ngofal ei athrawes ddosbarth. Yn ddelfrydol dylai cynllun gofal asthma gael ei adael yn yr ysgol efo'r pwmp a 'spacer'.

Os yw eich plentyn yn sâl yn yr ysgol byddwn yn cysylltu â chi os yw angen mynd adref. Os yw eich plentyn yn sâl yn y bore ni ddylech ei yrru i'r ysgol. Gyda rhai afiechydon, mae'r Awdurdod Iechyd yn argymhell i'ch plentyn gadw'n glir o'r ysgol am nifer o ddyddiau:

Dolur rhydd/taflu fyny - 48 awr ar ôl peidio bod yn sâl

Y Frech Ieir - 7 diwrnod ar ôl darganfod y frech

Y Frech Goch - 7 diwrnod ar ôl darganfod y frech

Y Frech Almaeneg - 4 diwrnod ar ôl darganfod y frech

Clwy'r Pennau - 7 diwrnod ar ôl i'r clwy' ddiflannu

Y Pâs - 21 diwrnod ar ôl dechrau pesychu

Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg

IECHYD A DIOGELWCH



Dilynw'n Bolisi Iechyd a Diogelwch y Sir ac anelwn i sicrhau safon uchel o iechyd a diogelwch i'r staff, disgyblion ac ymwelwyr, gydag amgylchfyd iach a diogel drwy'r ysgol.

Cynhelir dril tân bob hanner tymor.

Lleolir blychau cymorth cyntaf mewn mannau penodol o gwmpas yr ysgol yn ogystal â llyfrau damweiniau ac os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â chyflwr plentyn ar ôl damwain, gyrrwn am y rhieni neu fynd â'r plentyn i'r ysbyty yn Rhuthun.

TREFN AMDDIFFYN PLANT

Mae diogelu plant o bwysigrwydd mawr yma yn Ysgol Pen Barras. Mae'n ddyletswydd statudol ar yr ysgol i gyfeirio unrhyw amheuaeth o gam-drin plant i'r asiantaethau priodol er lles y plentyn. Gall hyn olygu cam-drin corfforol, rhywiol, emosiynol neu esgeulustod.

Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg

CYFLE CYFARTAL



Datganiad Polisi Cyfle Cyfartal

Mae Ysgol Pen Barras a'i gweithgareddau yn rhoi cyfle i weithredu cyfle cyfartal i'r disgyblion.

Meithrinir y plant i fagu agweddau iach tuag at eu cyd-ddyn beth bynnag fo eu ffydd neu gredoau ac i ddileu rhagfarn, hiliaeth a thrais. Caiff pob disgybl gyfle i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol beth bynnag fo eu cefndir cymdeithasol neu ieithyddol.

Ni dderbynnir ymddygiad lle bo agweddau treisgar, hiliol neu ragfarnllyd.



Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg

CYMDEITHAS RHINI AC ATHRAWON



Mae gan Ysgol Pen Barras Gymdeithas Rhieni ac Athrawon weithgar a brwdfrydig a wêl ei gwaith fel rhan allweddol o fywyd a llwyddiant yr ysgol. Mae'r gymdeithas yn ymfalchïo ym mhroffesiynoldeb y staff ac yn niddordeb byw y rhieni yn holl gylch gwaith yr ysgol.

Prif bwrpas y Gymdeithas yw codi arian tuag at brynu adnoddau i'r ysgol, adnoddau angenrheidiol na fyddai'n bosibl i'r ysgol lwyddo hebddynt. Mae'n amlwg felly fod cyfraniad a chefnogaeth rhieni yn fuddsoddiad uniongyrchol yn addysg ac yn nyfodol ein plant. Felly, pan gewch gyfle i gefnogi neu i wirfoddoli – byddwch yn barod!



Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg

YMDRIN Â CHWYNION



Mae gan yr ysgol ethos agored, cyfeillgar ac mae croeso i chi drefnu i weld y Pennaeth i drafod unrhyw bryder.

Pan fo angen codi cŵyn am unrhyw agwedd o waith yr ysgol, dylid cysylltu â'r Pennaeth ac os na chewch eich bodloni, gallwch gysylltu ag aelodau o'r Corff Llywodraethol neu ag Adran Addysg Cyngor Sir Ddinbych.

Gellir cysylltu â'r ysgol i ofyn am gopi o'r Weithdrefn Gwynion.



POLISIÏAU

Cynlluniwyd polisïau ar y pynciau a addysgir, polisïau statudol a'r polisïau a argymhellir a chant eu hadolygu'n rheolaidd gan y Corff Llywodraethol a'r staff. Mae croeso i riant ofyn am gopi o unrhyw bolisi a ddymunent ei weld.

Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg

Y CWRICWLWM



Caiff pob pwnc yn y Cwricwlwm Cenedlaethol ei gynnwys ym maes llafur yr ysgol. Anelir at baratoi gwaith ar gyfer plant o wahanol alluoedd a bydd grwpio gallu a grwpio cymdeithasol/ffrindiau yn digwydd o fewn y dosbarth. Paratwir deunydd gwahaniaethol ar gyfer plant o bob gallu.

Dysgir y dosbarth fel uned gyfan yn ogystal â dysgu grwpiau a chaiff y dysgyblion gyfle i ddatblygu fel unigolion o fewn y dosbarth.

Mae'r Llywodraethwyr yn cefnogi'r Awdurdod Addysg Lleol yn eu gwaith o gynghori a hysbysu rhieni am y newidiadau all ddigwydd yn y Cwricwlwm o flwyddyn i flwyddyn.

TRAFOD GWAITH Y PLANT

Os hoffech drafod gwaith eich plentyn gallwch gysylltu â'r ysgol i drefnu gweld yr athro/athrawes ddosbarth. Trefnir noson agored i rieni yn ystod Tymor yr Hydref a'r Gwanwyn, a noson i drafod adroddiad diwedd blwyddyn yn ystod tymor yr haf.

Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL



Miss Annwen Hughes yw'r aelod staff sy'n gyfrifol am gydlynu darpariaeth ADY yr ysgol.

Amcanion

Anelwn i sicrhau bod y ddarpariaeth angenrheidiol yn cael ei gwneud trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd ag anghenion addysgol arbennig.

Polisi

Mae polisi ysgol gyfan (ar gael ar gais) yn gosod allan y drefn o adnabod, asesu a darparu ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae aelod o'r corff llywodraethol wedi ei enwebu i fonitro gweithrediad effeithiol y polisi.

Ni ddefnyddir meini prawf wrth dderbyn disgyblion. Mae adeilad yr ysgol ar un lefel ac mae toiled ar gyfer cadair olwyn yn yr adeilad.



Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg

ADDYSG RHYW



Mae'r ysgol wedi mabwysiadu'r Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol a gyhoeddwyd gan Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) yn 2000 a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'w ddefnyddio mewn ysgolion, ac yn paratoi cwricwlwm sy'n diwallu canlyniadau dysgu Agwedd Rywiol yn y pedwar Cyfnod Allweddol.

Nodau Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yr ysgol yw:

- Galluogi disgyblion i fod yn effeithiol yn bersonol ac yn gymdeithasol drwy ddarparu profiadau dysgu lle gall y disgyblion ddatblygu sgiliau, ymchwilio i agweddau, gwerthoedd a rhinweddau personol, a chaffael a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth briodol o ran agwedd rywiol eu bywydau ar gyfnodau allweddol sy'n briodol i'w hoedran;
- Datblygu hunan-barch disgyblion a'u synnwyr o gyfrifoldeb personol fel eu bod yn datblygu'n oedolion a fydd yn cael cydberthnasau personol a rhywiol sy'n rhoi boddhad;
- Paratoi disgyblion ar gyfer sialensau, dewisiadau a chyfrifoldebau eu rhywioldeb sy'n datblygu a'u ffrwythlondeb sy'n aeddfedu;
- Ymrymuso disgyblion i gymryd rhan yn eu cymunedau fel dinasyddion gweithgar sy'n gyfrifol am eu hymddygiad rhywiol;
- Meithrin ac annog agweddau ac ymddygiad cadarnhaol tuag at aelodau'r gymuned y mae eu tuedd rhywiol yn wahanol i'w un hwy.

Bydd ymwelydd iechyd yr ysgol yn cyfarfod â disgyblion BL 6 yn ystod tymor yr haf i gael sgwrs ynglŷn â llencyndod a thyfu i fyny. Byddwn yn defnyddio rhaglen arbennig o'r enw 'Sense' fel sail i'r sgwrs yma. Gall rhieni ddewis peidio â gadael i'w plentyn gymryd rhan yn y sgwrs hon.

Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg

ADDYSG GREFYDDOL A CHYDADDOLI



Cawn wasanaethau boreol yn y neuadd ar ddau ddiwrnod ac yn y dosbarthiadau ar y tri diwrnod arall. Gall plentyn gael ei esgusodi o wasanaeth os gwna'r rhieni gais i'r ysgol drwy lythyr. Gan fod Addysg Grefyddol yn bwnc Cwricwlaidd yn yr ysgol, disgwylir i'r plant ymuno yn y gwersi. Mae'r gwersi yn rhoi gogwydd Cristnogol yn bennaf ond addysgir y plant am grefyddau eraill yn achlysurol.



Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg

CHWARAEON



Caiff pob disgybl gyfle i gymryd rhan mewn chwaraeon. Rydym yn annog cysylltiad agos rhwng y clybiau lleol, e.e. pêl-droed a rygbi.

Mae gennym dimau pêl-droed, pêl-rwyd, rygbi, nofio, athletau, criced a rhedeg traws gwlad a fydd yn cymryd rhan yng nghystadlaethau'r Urdd a Chwaraeon Dyffryn Clwyd yn flynyddol.

Cynhelir gwahanol glybiau chwaraeon i blant Bl 3, 4, 5 a 6 naill ai amser cinio neu ar ôl ysgol.



Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg

DYDDIADAU'R TYMOR YSGOL 2025 - 2026



Tymor yr Hydref

Tymor yn dechrau: Dydd Mercher 3ydd o Fedi 2025

Tymor yn gorffen: Dydd Gwener 19fed o Ragfyr 2025

Gwyliau hanner tymor: Dydd Llun 27ain o Hydref 2025 i Ddydd Gwener 31ain o Hydref 2025

Gwyliau'r Nadolig: Dydd Llun 22ain o Ragfyr 2025 i Ddydd Gwener 2ail o Ionawr 2026

Tymor y Gwanwyn

Tymor yn dechrau: Dydd Mawrth 6ed o Ionawr 2026

Tymor yn gorffen: Dydd Gwener 27ain o Fawrth 2026

Gwyliau hanner tymor: Dydd Llun 16eg o Chwefror i Ddydd Gwener 20fed o Chwefror 2026

Gwyliau'r Pasg: Dydd Llun 30fed o Fawrth 2026 i Ddydd Gwener 10fed o Ebrill 2026

Tymor y Gwanwyn

Tymor yn dechrau: Dydd Llun 13eg o Ebrill 2026

Tymor yn gorffen: Dydd Llun 20fed o Orffennaf 2026

Calan Mai (Gwyl y Banc): Dydd Llun 4ydd o Fai 2026

Gwyliau hanner tymor: Dydd Llun 25ain o Fai 2026 i Ddydd Gwener 29ain o Fai 2026

Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg